# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)-15-09 Papur 1: 10 Tachwedd 2009

### Deisebau newydd

Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth gefndir gryno am y deisebau sydd i gael eu hystyried am y tro cyntaf gan y Pwyllgor ar 10 Tachwedd 2009.

### (i) P-03-255 Darpariaeth ar gyfer rhai sydd ag anghenion addysg arbennig mewn ysgolion prif ffrwd

**Geiriad y ddeiseb**

Hoffem ni yn Ysgol Gyfun Sant Julian pe bai Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried gwarchod darpariaeth addysg arbennig o fewn ysgolion prif ffrwd yng Nghymru.

**Cefndir**

Cynigiwyd y ddeiseb gan ddisgyblion yr Uned Addysg Arbennig yn Ysgol Sant Julian, Casnewydd, a chasglwyd 14 o lofnodion.

### (ii) P-03-262 Academi Heddwch Cymru / Wales Peace Institute

**Geiriad y ddeiseb**

Rydym ni'n galw ar Gynulliad Cenedlaethol Cymru i ymchwilio i'r posibilrwydd ac i edrych pa mor ymarferol fyddai i Gymru gael Sefydliad Heddwch i edrych ar heddwch a hawliau dynol, tebyg i'r sefydliadau a gefnogir gan lywodraethau gwladwriaethau yn Fflandrys, Catalonia a mannau eraill yn Ewrop.

**Cefndir**

Cynigiwyd y ddeiseb hon gan y Ganolfan Gymreig Materion Rhyngwladol, Cymdeithas y Cymod, Cynefin y Werin ac CND Cymru, a chasglwyd 1525 llofnod.  Mae'r deisebydd wedi darparu gwybodaeth i gefnogi'r ddeiseb, ac mae i'w gweld fel rhan o PET(3) 15-09 Papur 1A.

**Gwasanaeth y Pwyllgorau**

**Tachwedd 2009**